**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2**
**Legislation Committee No.2**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Alun Ffred Jones AM
Gweinidog dros Dreftadaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays

**Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)**

26 Mai 2010

Annwyl Alun,

1. Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 23 Ebrill.

2. Un o'r materion sydd wedi cael ei godi mewn tystiolaeth yn rheolaidd yw'r cwestiwn o sut y gallai safon unigol edrych.

3. Yn eich llythyr, rydych yn datgan mai 'mater i'r Comisiynydd yw sut y gallai safonau edrych yn ymarferol.'

4. Fodd bynnag, nid yw rôl y Comisiynydd o ran gwneud safonau, a'r broses berthnasol i'w dilyn, cyn i Weinidogion Cymru wneud safonau o dan adran 25, yn glir i ni. Felly buasem yn croesawu eglurhad pellach ar y mater hwn.

5. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r ffaith efallai bod gan y Comisiynydd ran i'w chwarae wrth wneud safonau, byddai'n ddefnyddiol i ni, fodd bynnag, pe baech yn gallu darparu safon drafft ar gyfer y pwyllgor fel enghraifft. Rydym yn cymryd y byddai hyn yn bosibl, drwy ddefnyddio unrhyw waith datblygu a gynhaliwyd wrth benderfynu disodli'r cynlluniau iaith gan safonau.

6. Ni chredwn y byddai darparu'r wybodaeth hon yn peryglu'r gwaith o osod safonau yn y dyfodol.

7. Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn bo hir,

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Legislation Office
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 02920 898101
E-bost / Email: swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

Yn gywir,

Val Lloyd AC
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2